


# Cod Ymarfer Archwilio
# Archwilydd Cyffredinol Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ebrill 2010

www.wao.gov.uk

# Cynnwys


Mae'r Cod Ymarfer hwn yn rhagnodi sut y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r archwilwyr a benodir ganddi/ganddo yn cyflawni eu swyddogaethau archwilio 3

Mae diben archwiliad y sector cyhoeddus yn driphlyg - bod yn atebol, rhoi dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant 4

Mae pedair egwyddor yn sail i waith yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddi/ganddo - canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, bod yn gymesur a bod yn atebol 5

Y Cod Cyffredinol - mae hwn yn rhagnodi'r ffordd y bydd archwilwyr yn cyflawni eu swyddogaethau 6

Y Cod Penodol - mae hwn yn rhagnodi'n bellach y ffordd y bydd archwilwyr yn cyflawni eu swyddogaethau penodol, fel rhan o ddull cydgysylltiedig i gyflawni gwaith archwilio 8

Atodlen 1: Yr Archwiliad o gyrff bach 12




# Mae'r Cod Ymarfer hwn yn rhagnodi sut y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r archwilwyr a benodir ganddi/ganddo yn cyflawni eu swyddogaethau archwilio

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 ac ystod o ddeddfwriaethau eraill[1] yn darparu'r sylfaen statudol er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei gwaith/waith.

2 Ar gyfer llywodraeth leol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr a fydd, unwaith y cânt eu penodi, yn cyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf 2004. Mae ganddi/ganddo swyddogaethau asesu, astudio ac arolygu o ran llywodraeth leol hefyd.

3 Mae Deddf 2004 yn datgan y gall yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi Cod Ymarfer, sy'n rhagnodi'r ffordd y dylai archwilwyr cyrff llywodraeth leol gyflawni eu swyddogaethau, ac mae'n ymgorffori'r hyn sy'n arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio hwn (y Cod) yn cyflawni'r diben hwnnw.

4 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ehangu a mabwysiadu'r Cod hwn o'i gwirfodd fel ei fod yn berthnasol i'w holl gwaith/waith archwilio.

5 Oni nodir fel arall, yn y Cod hwn mae'r termau ‘archwilydd’ ac ‘archwilwyr’ yn ymwneud ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, yr archwilwyr a benodir ganddi/ganddo i archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol, a'i staff a chyflenwyr archwilio.

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi datganiad o arfer sy'n disgrifio'r ffordd y mae'n bwriadu arfer elfennau allweddol o'i swyddogaethau asesu llywodraeth leol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi datganiad cyffelyb. Nid yw'r Datganiad yn ffurfio rhan o'r Cod hwn ond cafodd ei baratoi er mwyn iddynt fod yn gyson â'i gilydd.

7 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi canllawiau ategol ar gymhwyso'r Cod hwn, gan gynnwys trefniadau ynghylch sut y caiff y broses o gydymffurfio'r â'r Cod ei hasesu, yn ôl yr angen. Caiff y cyfryw ganllawiau eu diweddaru os bydd angen yn sgîl deddfwriaeth ddilynol.

8 Lle y ceir ansicrwydd ynghylch ystyr neu fwriad caiff unigolion eu hannog i anfon e-bost at y prif gyswllt ar gyfer y Cod hwn yn code@wao.gov.uk.



1 I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at gyhoeddiad Swyddfa Archwilio Cymru *Prif awdurdodau statudol ar gyfer swyddogaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i harchwilwyr/archwilwyr penodedig*

# Mae diben archwiliad y sector cyhoeddus yn driphlyg - bod yn atebol, rhoi dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant

**9** Gwasanaethau cyhoeddus yw'r gwasanaethau hynny a ddarperir ar ran y cyhoedd er budd y cyhoedd. Mae archwiliad allanol yn archwilio perfformiad, yn ariannol ac yn ehangach[2], gwasanaethau cyhoeddus ac yn cyflwyno adroddiad drwy ateb tri phrif gwestiwn:

- Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn perfformio?
- Pam fod y perfformiad fel ag y mae?
- Beth y gall darparwyr gwasanaeth ei wneud i wella?

**10** O'i roi mewn ffordd arall, mae diben archwiliad y sector cyhoeddus yn driphlyg – bod yn atebol, rhoi dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

**11** Mae archwiliad yn ystyried effeithiau gweithredu polisi. Gall archwiliad hefyd ystyried sut caiff penderfyniadau polisi eu gwneud, ond ni ddylai gwestiynu rhinweddau amcanion polisi.

**12** Mae archwiliad yn ychwanegu gwerth i gymdeithas drwy roi sicrwydd, ysgogi penderfyniadau gwell a chanlyniadau gwell, a helpu i ddarparu tryloywder i wasanaethau cyhoeddus.

**13** Ond ni all archwiliad gymryd lle cyfrifoldebau'r darparwyr gwasanaethau eu hunain. Cyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau yw sicrhau y cynhelir busnes cyhoeddus yn unol â'r gyfraith a safonau cywir, ac y diogelir arian cyhoeddus, rhoddir cyfrif cywir amdano, ac y caiff ei ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**14** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 a deddfwriaeth arall yn rhoi sail statudol i'r Archwilydd Cyffredinol a'i harchwilwyr/archwilwyr penodedig i gyflawni eu diben ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.



2 Mae archwiliad y sector cyhoeddus yn ymwneud â rhoi cyfrif cywir am, a stiwardio, arian cyhoeddus, gan gynnwys effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a chyflawni gwerth am arian

# Mae pedair egwyddor yn sail i waith yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddi/ganddo - canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, bod yn gymesur a bod yn atebol

**15** Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol, mae pedair egwyddor yn sail i waith yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddi/ganddo. Bydd archwilwyr yn cyflawni eu swyddogaethau yn gyson yn unol â'r egwyddorion hyn.

## Canolbwyntio ar y cyhoedd

**16** Cynhelir archwiliad allanol ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Mae'r hanfodol i'r broses o ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif. Mae gan y cyhoedd ddiddordeb dilys mewn gwaith archwilio a dylent fod yn rhan o'i brosesau lle y bo'n ymarferol ac yn briodol. Rhaid i allbynnau gwaith archwilio fod yn hygyrch[3] (gweler ein *Polisi Gwybodaeth* a'n *Cynllun Cyhoeddi*), yn amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn berthnasol i randdeiliaid.

## Annibynnol

**17** Rhaid i archwiliad fod, a'i weld i fod, yn annibynnol. Rhaid ei gynnal â chywirdeb mewn ffordd sy'n wrthrychol, yn ddiduedd ac sy'n unol â safonau ac ystyriaethau moesegol priodol. Ni ddylai archwiliad gael ei gyfyngu gan unrhyw ddiddordeb arbennig wrth gyrraedd ei gasgliadau a chyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau.

## Cymesur

**18** Mae angen rhoi digon o le i ddarparwyr gwasanaeth gyflawni gwasanaethau o safon uchel, ond ar yr un pryd bod yn amodol ar lefelau digonol o graffu. Mae taro'r cydbwysedd hwn yn rhan bwysig o ddyfarniad yr archwiliwr wrth bennu natur, cwmpas, graddfa a hyd gwaith archwilio.

## Atebol

**19** Ariennir archwilwyr sector cyhoeddus yn gyhoeddus ac maent yn atebol am stiwardiaeth yr adnoddau a ddarperir iddynt. Rhaid iddynt fod yn dryloyw yn eu gweithgareddau, yn unol â'r fframwaith cyfreithiol maent yn gweithio ynddo, fel bod pob parti yn deall i ba ddiben penodol y caiff archwiliad ei ddefnyddio.



3 Mae darpariaethau deddfwriaethol yn gwahardd yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddi/ganddo rhag datgelu mathau arbennig o wybodaeth mewn amgylchiadau penodol

# Y Cod Cyffredinol – mae hwn yn rhagnodi'r ffordd y bydd archwilwyr yn cyflawni eu swyddogaethau



20 Yn unol â'r pedair egwyddor a amlinellir yn y Cod hwn, bydd y canlynol yn berthnasol.

## Cynllunio

21 Bydd archwilwyr yn cynllunio eu gwaith. Byddant yn:

- gwneud gwaith cwmpasu cychwynnol, gan gynnwys casglu safbwyntiau rhanddeiliaid perthnasol, er mwyn deall y sefyllfa a phenderfynu ar ffocws mwyaf priodol y gwaith ar ffurf cwestiwn cyffredinol y bydd y prosiect yn mynd i'r afael ag ef;
- cynnal dadansoddiad o'r materion sy'n berthnasol i'r prosiect a nodi strwythur rhesymegol o gwestiynau ategol sydd angen eu hateb er mwyn ateb y cwestiwn cyffredinol;
- cynllunio methodoleg gwaith maes i ateb y cwestiynau hyn ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol fel y bo'n briodol, ond heb fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau cysondeb;
- ystyried y ffaith y gellir cyflawni gwasanaethau cyhoeddus drwy ystod o drefniadau ar y cyd, gan gynnwys partneriaethau a chontractau, ac ystyried sut i ddilyn arian cyhoeddus ar draws y cyfryw drefniadau;
- ystyried y system ehangach o archwilio, arolygu a rheoleiddio cyrff cyhoeddus, a sefydlu trefniadau cydgysylltu effeithiol gydag arolygiaethau statudol eraill i wneud y defnydd gorau o adnoddau archwilio ac arolygu cyffredinol.

## Gwaith maes

**22** Wrth wneud gwaith maes, bydd archwilwyr yn:

- gwneud eu gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a chanllawiau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- casglu'r wybodaeth sydd ei hangen, gan ddefnyddio hawliau mynediad cyfreithiol perthnasol[4], i ddarparu ateb i'r cwestiwn cyffredinol, ac i gyflawni cyfrifoldebau statudol a phroffesiynol;
- gweithio'n effeithlon, ymddiried yn y gwaith blaenorol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol a'i harchwilwyr/archwilwyr penodedig, ochr yn ochr â gwaith archwiliad mewnol a chyrff adolygu allanol eraill, lle y bo'n bosibl ac yn briodol;
- casglu gwybodaeth mewn modd sy'n hwyluso'r gwaith o gymharu perfformiad a nodi arfer da ac arloesedd a reolir yn dda lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol;
- sicrhau bod yr holl ddata a dderbynnir neu a geir yn cael ei gadw'n ddiogel yn unol â gofynion statudol ac eraill o ran casglu, cadw a datgelu gwybodaeth[5].

## Cyflwyno adroddiad

**23** Ar ôl cwblhau gwaith maes, bydd archwilwyr yn:

- dod i gasgliadau am ganlyniadau gwaith maes ac yn ateb y cwestiwn cyffredinol yr aeth y gwaith i'r afael ag ef;
- penderfynu ar y negeseuon allweddol a strwythur yr allbynnau a ddefnyddir i gyflwyno adroddiadau arnynt;
- cynnig y cyfle i randdeiliaid perthnasol wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y canfyddiadau;
- cynhyrchu allbynnau sy'n:
  - cydymffurfio â'r gofynion cyflwyno adroddiadau statudol a phroffesiynol;
  - drwyadl, clir, a chryno wrth gyfleu'r negeseuon angenrheidiol;
  - rhoi ateb i'r cwestiwn cyffredinol yr aeth y gwaith i'r afael ag ef a rhoi'r rhesymau am yr ateb hwnnw mewn strwythur rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
  - agored am derfynau'r prosiect; a lle y bo'n briodol; ac lle’n briodol
  - defnyddio graffeg a thablau i gyfleu gwybodaeth;
  - gwneud argymhellion er mwyn gwella yn y dyfodol, sy'n ddefnyddiol, yn benodol, yn ymarferol ac sy'n canolbwyntio ar fuddiannau'r cyhoedd.
- sicrhau bod yr allbynnau ar gael i ystod eang o randdeiliaid mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff y gwaith yr effaith a'r gwerth posibl mwyaf.

4 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol a'rarchwilwyr a benodir ganddi/ganddo hawliau cyfreithiol eang i weld gwybodaeth a dogfennau sy'n ymddangos yn angenrheidiol i ddiben eu swyddogaethau

5 Gellir gweld dogfen Swyddfa Archwilio Cymru *Polisi Diogelwch Gwybodaeth* ar ein gwefan

# Y Cod Penodol – mae hwn yn rhagnodi'n bellach y ffordd y bydd archwilwyr yn cyflawni eu swyddogaethau penodol, fel rhan o ddull cydgysylltiedig i gyflawni gwaith archwilio



## Archwilio cyfrifon

**24** Yn ogystal â'r Cod Cyffredinol ac yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, bod yn gymesur a bod yn atebol, bydd y canlynol yn berthnasol.

**25** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon cyrff gwasanaethau cyhoeddus y mae'n eu harchwilio/archwilio. Mae hefyd yn penodi archwilwyr i archwilio a chyflwyno adroddiadau ar gyfrifon cyrff llywodraeth leol. Mae adroddiadau archwilio yn cynnwys barn ar:

- a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o incwm a gwariant a sefyllfa materion ariannol y corff, neu'n eu cyflwyno'n deg;
- a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu cymwys;
- rheoleidd-dra'r trafodion, mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol.

**26** Wrth wneud eu gwaith, bydd archwilwyr yn cydymffurfio â'r safonau archwilio a moesegol sydd mewn grym ar hyn o bryd, ac y gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd[6], ac sy'n ymddangos yn berthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd archwilwyr hefyd yn ystyried canllawiau a chyngor cysylltiedig a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

**27** Bydd archwilwyr yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol cysylltiedig:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

**28** Bydd archwilwyr yn nodi mewn adroddiad archwilio lle nad yw'r datganiad llywodraethu, neu ddatganiad am reolaeth fewnol, yn unol â'r gofynion perthnasol neu lle y mae'n gamarweiniol neu'n anghyson ag unrhyw wybodaeth arall y maent yn ymwybodol ohoni[7]. Nid yw'n ofynnol iddynt lunio barn ar gyflawnrwydd nac effeithiolrwydd y gweithdrefnau a ddisgrifir yn y datganiadau hyn.

6 Rhoddir ar waith gan Fwrdd Arferion Archwilio y Cyngor Adrodd Ariannol
7 Lle y bo angen, ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol, mae cyrff a archwilir yn paratoi a chyhoeddi datganiad a wneir gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â'u hadolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol (y cyfeirir ati fel naill ai datganiad llywodraethu neu'r datganiad am reolaeth fewnol)

**29** Pan fo'n ofynnol i fodloni eu hunain bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, bydd archwilwyr yn defnyddio meini prawf a nodir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd archwilwyr yn dibynnu ar y ffynonellau sicrwydd canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol y corff a archwilir, fel y nodir yn ei ddatganiad llywodraethu neu ddatganiad am reolaeth fewnol ac adroddiad yr archwilydd ar hynny;
- canlyniadau gwaith arall a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, ardystio ceisiadau a ffurflenni, ymarferion paru data ac, ar gyfer cyrff llywodraeth leol, gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill lle y bo'n berthnasol i gyfrifoldebau'r archwilydd;
- unrhyw waith arall sy'n cyfeirio at faterion nas cwmpesir gan yr uchod, ac y mae'r archwilydd yn ystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau.

**30** Cyflwynir adroddiadau ar gynlluniau a chanlyniadau gwaith archwilio cyfrifon drwy ystod o allbynnau priodol. Gellir cyhoeddi'r allbynnau canlynol gan yr archwilydd yn ystod camau allweddol yn y broses archwilio:

- dogfen cynllunio archwiliad;
- adroddiadau neu femoranda llafar ac ysgrifenedig i unigolion priodol ar ganlyniadau agweddau penodol ar waith yr archwilydd neu faterion sy'n codi o agweddau penodol ar y cyfryw waith;
- adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n crynhoi casgliadau'r archwilydd;
- adroddiad archwilio gan gynnwys barn yr archwilydd ar y datganiadau ariannol;
- tystysgrif bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau yn unol â'r gofynion statudol;
- adroddiad sylweddol cysylltiedig os yw barn yr archwilydd yn amodol[8], neu os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno cyflwyno adroddiad ar unrhyw fater.

**31** Gall yr archwilydd hefyd gyhoeddi allbynnau pellach yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Er nad yw'n derfynol, gall hyn gynnwys adroddiadau a lunnir er budd y cyhoedd a datganiadau rhesymau yn dilyn gwrthwynebiadau a wneir gan etholwyr awdurdod lleol.

**32** Efallai y bydd amgylchiadau lle y gall agweddau ar y Cod Penodol fod yn amhriodol i archwiliad o gyfrifon rhai cyrff, er enghraifft oherwydd y symiau cymharol fach o arian cyhoeddus a reolir gan y cyrff dan sylw. Wrth gynnal archwiliad o'r cyfryw gyrff, dylai archwilwyr gymhwyso'r Cod Penodol i'r graddau sy'n briodol yn eu barn hwy ac yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Wrth gynnal yr archwiliad o gyrff sydd naill ai'n incwm blynyddol neu'n wariant blynyddol o dan derfyn ariannol a bennir gan yr Archwilydd Cyffredinol o bryd i'w gilydd, dylai archwilwyr berthnasu Atodlen 1 y Cod hwn os y'u cyfeirir i wneud hynny gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**33** Bydd archwilwyr yn cynnal eu gwaith yn unol ag unrhyw ganllawiau a chyngor perthnasol a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan ystyried datganiadau o gyfrifoldebau priodol neu eu cyfwerth. Mae hyn yn gymwys i'r holl waith a wneir mewn perthynas ag archwilio cyfrifon, yn cynnwys y gwaith hwnnw sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, er enghraifft, archwiliadau cyhoeddus ac atal gwariant anghyfreithlon.

8 Yn hytrach na barn ddiamod, a gaiff ei mynegi pan fo'r archwilydd yn casglu bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, neu y cânt eu cyflwyno'n deg, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol cymwys

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian

34 Yn ogystal â'r Cod Cyffredinol ac yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, bod yn gymesur a bod yn atebol, bydd y canlynol yn berthnasol.

35 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau i archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (a elwir ar y cyd yn werth am arian) o ran y modd y mae cyrff gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio eu hadnoddau, ac i wneud argymhellion ar wella gwerth am arian.

36 O ran cyrff llywodraeth leol, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal neu hyrwyddo astudiaethau i'w galluogi/alluogi i wneud argymhellion ar wella gwerth am arian wrth gyflawni swyddogaethau a gwaith rheoli. Gall hefyd gynnal neu hyrwyddo mathau eraill o astudiaethau llywodraeth leol.

37 Gellir cynnal y swyddogaethau hyn, ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n cyflawni'r gwasanaethau. Caiff y math hwn o waith ei ddisgrifio'n aml fel 'system gyfan' neu 'trawsbynciol'. Mae'n arbennig o bwysig bod archwilwyr yn rhannu gwybodaeth ac yn cydweithio wrth gynnal y math hwn o waith.

38 O ran ei swyddogaethau astudio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried, ymysg pethau eraill, y canlynol wrth benderfynu ar ba waith i'w gynnal:

- lefelau buddiannau a phryderon y cyhoedd[9];
- maint y materion a'r amgylchiadau a'r risgiau cysylltiedig;
- p'un a ellir trosglwyddo'r gwersi a ddysgir;
- p'un a yw'r gwaith yn amserol;
- p'un a yw'n well gweithio'n unigol neu gydag eraill.

39 Bydd archwilwyr yn cydymffurfio â chanllawiau a chyngor yr Archwilydd Cyffredinol wrth gynnal gwaith archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian.

40 Ar gyfer unrhyw archwiliad neu astudiaeth arbennig, bydd archwilwyr yn defnyddio'r dull a ragnodir yn y Cod Cyffredinol i ddatblygu methodoleg gwaith maes sy'n eu galluogi i benderfynu i ba raddau y cyflawnwyd gwerth am arian neu y gellir ei wella. Lle y bo'n berthnasol, bydd hyn yn ymestyn i alluogi archwilwyr i wneud dyfarniad ar effeithiolrwydd unrhyw bartneriaethau darparu gwasanaeth a threfniadau cydweithio.

41 Bydd archwilwyr yn dibynnu ar allbynnau perthnasol o waith arall a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig, gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ochr yn ochr â gwaith cyrff adolygu allanol eraill.

42 Caiff canlyniadau'r gwaith gwerth am arian eu cyflwyno mewn adroddiad a fydd ar gael i ystod mor eang â phosibl o randdeiliaid a buddiolwyr. Ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer gwella, bydd archwilwyr yn ceisio nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir a thynnu sylw at arfer da ac arloesedd.

43 Ar ôl cwblhau astudiaeth, bydd archwilwyr yn monitro'r ymateb i'w hargymhellion. Byddant hefyd yn monitro canlyniadau unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'w hargymhellion, a gallant gynnal astudiaethau dilynol lle y bo'n briodol.

9 Gan gynnwys yn arbennig farn Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol, lle y bo'n berthnasol

## Ardystio ceisiadau a ffurflenni

**44** Os bydd angen, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau ar gyfer ardystio ceisiadau a ffurflenni o ran grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a wnaed i gyrff gwasanaeth cyhoeddus. Cynlluniwyd y gwaith o ardystio er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol y caiff ceisiadau a ffurflenni eu datgan yn deg ac yn unol â thelerau ac amodau penodol.

**45** Fodd bynnag, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl nad ardystio fyddai'r dull mwyaf effeithiol o roi sicrwydd. Felly, cyn gwneud y cyfryw drefniadau, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cyngor i gyrff sy'n gofyn am ardystio ar y dull mwyaf effeithiol o gael sicrwydd.

**46** Lle y bydd cyrff angen ardystio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn defnyddio disgresiwn wrth gyflawni'r rhwymedigaethau hyn ac yn gwneud dyfarniad ar drefniadau ardystio mewn achosion penodol, ar ôl ystyried:

- amgylchiadau penodol cynllun a'r symiau cysylltiedig;
- y lefel sicrwydd a geisir a ffynonellau eraill posibl o sicrwydd sydd ar gael;
- cadernid y meini prawf a gymhwysir;
- natur a graddau'r gwaith angenrheidiol.

**47** Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn annog cyrff sy'n talu grantiau i gytuno ar drefniadau ardystio priodol gyda hi/ef cyn y gwneir ardystio yn amod ar gyfer dyfarnu grant.

## Paru Data

**48** Gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll.

**49** Bydd y cyfranogwyr i gyd mewn ymarferion paru data a gynhelir gan, neu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal eu gwaith yn unol â *Chod Ymarfer ar Baru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru*.

# Atodlen 1: Yr Archwiliad o gyrff bach

i Dylai archwilwyr cyrff bach ymgymryd ag archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ychwanegol ac esboniad a gaiff ei ddarparu gan y corff. Dylai archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldeb drwy:

- adolygu cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol ar gyfer y gwaith o baratoi'r cyfrifon blynyddol;
- cynnal adolygiad lefel uchel-dadansoddol o wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir i'r archwilydd; ac
- adolygu gwybodaeth ychwanegol ac esboniad o'r fath yn angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth bod y corff wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol ac archwilio mewnol drwy gydol y flwyddyn ariannol.

ii Lle, ar sail adolygiad yr archwilydd, mae'r archwiliwr yn gofyn am dystiolaeth bellach mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n berthnasol, dylid profi ychwanegol gael ei wneud i ymdrin â phryderon yr archwilydd.

iii Pan fydd yr archwiliwr wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ychwanegol ac esboniad a ddarperir, bydd yr archwiliwr yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn ardystio'r archwiliad sydd wedi ei gwblhau. Mae'r archwilwyr yn darparu sicrwydd ar ffurf barn, ar sail eu hadolygiad, y cyfrifon a gwybodaeth arall a ddarperir yn unol â'r gofynion a nodwyd ac nad oes unrhyw faterion wedi dod at eu sylw sy'n achosi pryder bod deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol heb eu bodloni.

